



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Glan Gele

**Ffordd Y Morfa
Abergele
Conwy
LL22 7NU**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Glan Gele

Enw'r darparwr	Ysgol Glan Gele
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	*
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	277
Disgyblion o oed ysgol statudol	211
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	66
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%)	25.5%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%)	26.6%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	0.0%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	5.3%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2023
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	09/09/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	09/10/2023

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Trosolwg

Mae Ysgol Glan Gele yn gymuned gynhwysol a gofalgaf lle rhoddir blaenoriaeth i les pawb. Mae hon yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae'r awyrgylch cefnogol a chynnes hwn yn helpu bron pob un o'r disgyblion i ymgynffwrdd â bywyd ysgol yn hawdd, ac yn cyfrannu'n sylweddol at ymgysylltiad disgyblion yn yr ysgol a'u parodrwydd i ddysgu. Mae'r perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng disgyblion a staff yn annog pob un o'r disgyblion i ddangos agwedd gyfrifol mewn gwersi ac arddangos ymddygiad rhagorol o gwmpas yr ysgol.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u manau cychwyn unigol, gan gynnwys y disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gymorth ar gyfer disgyblion, ac mae cynorthwyrwr addysgu medrus yn darparu cymorth defnyddiol mewn sesiynau dynodedig i fynd i'r afael ag anghenion emosiynol a dysgu. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ystod eang o asiantaethau, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r dull cydweithredol hwn yn galluogi disgyblion i ymgysylltu'n briodol â'u dysgu.

Mae arweinwyr ac athrawon wedi datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn defnyddio diwrnodau trochi i ennyn diddordeb disgyblion yn eu gwaith a chaniatáu cyfleoedd iddynt gyfrannu eu syniadau am beth hoffent ei ddysgu. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu. Mae hyn yn cynnwys dewis eang o weithgareddau allgyrsiol cyffrous ac amrywiaeth o ymweliadau addysgol, sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae llawer o staff yn defnyddio holi'n dda i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn darparu gweithgareddau ar gyfer disgyblion sy'n diwallu eu hanghenion dysgu yn ddigon agos nac yn eu herio'n briodol. Nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymgysylltu â dysgu effeithiol yn yr awyr agored wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae arweinwyr a staff yn rhannu gweledigaeth bwrpasol ar gyfer yr ysgol. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau bod yr ysgol yn llwyddiannus yn ei nodau. Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gref o gryfderau'r ysgol, ac mae'n gweithio'n effeithiol gyda'r pennaeth, y staff, y disgyblion a'r rhieni i gefnogi gwelliant parhaus.

Argymhellion

- A1 Datblygu profiadau dysgu ymhellach i ddiwallu anghenion pob un o'r disgyblion a darparu her ddigonol mewn dysgu ar draws y cwricwlwm
- A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif werthusiad

Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da ac yn defnyddio eu gwybodaeth a'u medrau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn briodol. Maent yn ymgynffwrdd â bywyd ysgol ac yn dysgu am arferion dyddiol yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau ac yn cyfleu eu hanghenion yn dda. Wrth iddynt ddatblygu ystod ehangach o eirfa lafar, mae disgyblion yn dechrau siarad yn hyderus â'i gilydd ac â staff. Maent yn gofyn ac yn ateb cwestiynau syml, yn gofyn am gymorth ac yn chwilio am eglurhad yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn datblygu i fod yn siaradwyr huawdl ac yn ymhyfrydu mewn cyfleoedd i siarad am eu gwaith. O oedran ifanc, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau edrych ar lyfrau a siarad am y lluniau. Yn y dosbarth derbyn, mae disgyblion yn mwynhau ail-ddweud storïau y maent wedi'u clywed ac yn actio gwahanol rannau o'r storïau yn frwdfrydig. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn rhannu eu hoff lyfrau gyda'u ffrindiau ac yn mwynhau trafod y cynnwys wrth iddynt edrych ar y lluniau gyda'i gilydd. Maent yn dechrau defnyddio eu medrau ffonolegol i'w galluogi i ddadgodio geiriau yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ystod o destunau yn gywir ac yn rhugl.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol. Mae disgyblion iau yn defnyddio ystod eang o adnoddau i greu marciau ac yn deall eu bod yn datblygu eu medrau cyfathrebu. Mae llawer ohonynt yn tynnu llun, yn peintio, ac yn creu patrymau gan ddefnyddio ystod o gyfryngau ac maent yn dechrau ysgrifennu gan ddal pensil yn addas. Mae mwyafrif o blant ym Mlwyddyn 1 yn dechrau defnyddio eu medrau ysgrifennu datblygol yn eu chwarae dychmygus, er enghraifft wrth geisio ysgrifennu nodiadau a rhestrau. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn gwneud cynnydd da. Gallant ysgrifennu storïau yn annibynnol a gallant ddrafftio a golygu eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu storïau antur gyda disgrifiadau cynyddol fanwl o gymeriadau. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, ni chaiff pob un o'r disgyblion eu herio'n ddigonol i wella'u gwaith ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Mae medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ac yn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol. Mae disgyblion iau yn nodi lliwiau a siapiau yn Gymraeg yn hyderus, ac maent yn mwynhau canu amrywiaeth o ganeuon a rhigymau. Mae disgyblion hŷn yn parhau i wneud cynnydd da ac yn dechrau cynnal sgysiau syml yn Gymraeg gyda'u ffrindiau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn gwneud cynnydd addas yn eu datblygiad mathemategol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif i ddeg, o leiaf, ac yn paru gwrthrychau â rhifau yn gywir. Maent yn adnabod ac yn enwi siapiau yn yr amgylchedd ac yn nodi nifer yr ochrau sydd ganddynt. Fel rhan o'u gwaith ar gestyll, mae llawer o ddisgyblion yn adnabod y siapiau rheolaidd a welant mewn lluniau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio geirfa fathemategol yn llwyddiannus wrth iddynt chwarae, er enghraifft wrth gymharu mawr a bach. Maent yn deall defnydd o arian, siapiau a mesuriadau ac yn gallu cymhwyso'r rhain mewn gweithgareddau datrys problemau, er enghraifft wrth fesur yr amser y mae'n ei gymryd i giwbiau rhew doddi tra'n ymchwilio i gynhesu byd-eang. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw pob un o'r disgyblion yn trosglwyddo'u dealltwriaeth o'r cysyniadau mathemategol hyn i'w profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd da o ystod eang o adnoddau digidol i gefnogi eu dysgu. Mae disgyblion iau yn creu pictogramau i gofnodi data am hoff fwydydd ac yn defnyddio rhaglenni syml i greu celf ddigidol. Mae disgyblion hŷn yn creu taenlenni yn dadansoddi gwerthiant tocynnau ar gyfer pantomeim yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn adeiladu ac yn rhaglennu robotiaid i gasglu plastigau mewn cefnforoedd, fel rhan o'u prosiect ar yr amgylchedd. Maent yn creu cyflwyniadau ac animeiddiadau amlygfrwng gan ddefnyddio technoleg sgrin werdd i ddangos eu dealltwriaeth o'u testun.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn symud yn hyderus wrth ddefnyddio'r offer chwarae ac yn ystod sesiynau addysg gorfforol, lle maent yn dangos eu cryfder a'u stamina. Mae llawer o blant yn datblygu medrau echddygol manwl a chydsymud da, er enghraifft wrth ddefnyddio gefeiliau i godi a symud gwrthrychau fel concyrs yn ofalus o un lle i'r llall.

Mae disgyblion yn dechrau datblygu eu creadigrwydd a'u dychymyg yn dda. Maent yn defnyddio ystod o adnoddau, gan gynnwys deunyddiau naturiol, i greu modelau, collage, a phaentiadau. Mae pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gwasanaethau yn rheolaidd, yn ogystal â phantomeimiau blynyddol. Maent yn defnyddio cerddoriaeth a symud yn dda i ymestyn eu dysgu trwy wersi gymnasteg a dawnsio rheolaidd.

Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau bach wrth ddatblygu eu medrau datrys problemau yn ystod chwarae rhydd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn defnyddio'r medrau hyn yn gyson ar draws yr holl feysydd dysgu.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae disgyblion yn Ysgol Glan Gele yn falch o'u hysgol ac yn teimlo'n ddiogel ac yn saff yn ei hamgylchedd dysgu cadarnhaol a chartrefol. Dangosant agwedd ofalgar tuag at ddisgyblion eraill mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o barch at ei gilydd, eu hysgol a'u cymuned, ac yn deall eu bod yn derbyn gofal da. Mae cyfeillion maes chwarae Blwyddyn 2 yn cynorthwyo disgyblion iau yn frwdfrydig trwy gydol amseroedd chwarae, trwy chwarae, canu ac ymuno â'u gemau. Dangosant ymwybyddiaeth gref o beth yw bod yn ffrind da a sut i helpu pobl eraill.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn elwa ar gyfleoedd i drafod eu teimladau a'u hemosiynau yn rheolaidd. O ganlyniad, maent yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo a'u gwerthfawrogi. Maent yn nodi sut maent yn teimlo ar ddechrau'r diwrnod ac yn deall sut i reoli eu hemosiynau pan fydd angen.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu i fod yn unigolion iach a hyderus. Maent yn esbonio sut i wneud dewisiadau iach yn ymwneud â diet, gweithgarwch corfforol a lles emosiynol. Mae llawer ohonynt yn ymwybodol o bwysigrwydd diet iach ac yn siarad yn hyderus am ddewis ffrwythau a llysiau. Maent yn deall sut mae ymarfer corff yn eu helpu i ddatblygu'n gorfforol ac yn mwynhau cymryd rhan mewn diwrnodau thema iach sy'n cynnwys rhieni.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ac yn disgrifio'n hyderus sut maent yn gwneud hyn y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Maent yn gwybod gyda phwy y gallant siarad i roi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gref am bwy yw dieithriaid ac yn gwybod beth i'w wneud os yw ymddygiad pobl eraill yn gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus.

Mae llawer o ddisgyblion yn dod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus yn gynyddol. Dangosant synnwyr cynyddol o empathi a thosturi tuag at bobl eraill ac mae eu hymwybyddiaeth o amrywiaeth a chydarddoldeb yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, maent yn codi arian i gefnogi elusennau cenedlaethol sy'n ymgyrchu yn erbyn tlodi plant. Mae disgyblion hŷn yn dangos ymwybyddiaeth dda o hawliau plant ac yn gallu esbonio sut mae'r rhain yn cael effaith ar eu bywydau bob dydd eu hunain a bywydau bob dydd pobl eraill.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus sy'n barod i ddysgu, ac yn dangos hyder a gwydnwch, er enghraifft yn y ffordd y maent yn mwynhau rhyngweithio ag oedolion, ac yn dyfalbarhau â'u gwaith o fewn yr ystafell ddosbarth. Disgrifir gwersi fel 'hwyl' a 'diddorol' ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn frwdfrydig am yr hyn y maent yn mwynhau ei wneud yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae llai o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau yn yr holl feysydd dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn barod i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain a chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft fel aelodau o grwpiau niferus llais y disgybl, yn cynnwys y Cyngor Ysgol, y Criw Cymraeg, Arweinwyr Digidol, Llysgenhadon Chwarae a grwpiau eco. Mae disgyblion yn ymgymryd â'r rolau hyn o ddifrif ac yn dechrau gwneud cyfraniadau at waith yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werthoedd a systemau gwobrwyo'r ysgol. O ganlyniad, mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Maent yn canolbwyntio'n effeithiol tra'n gweithio ac yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus yn ystod amseroedd egwyl ac amseroedd cinio. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn trafod eu gwaith a'u dysgu blaenorol yn hyderus. Mae disgyblion hŷn yn ymateb yn briodol i adborth ac yn gwella agweddau ar eu gwaith. Yn gyffredinol, maent yn deall y camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymgymryd â'u tasgau yn gydwybodol ac yn canolbwyntio'n dda.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod oedolion yn yr ysgol yn gwranddo ar eu barn ac yn ei hystyried wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae pob un o'r disgyblion yn cael cyfle i gyfrannu syniadau pan fyddant yn dechrau testun newydd, ac yn cymryd rhan yn yr adolygiad ar ddiwedd testun. O ganlyniad, gan amlaf, ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu â'u dysgu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad yn frwdfrydig am eu profiadau ac yn ymgysylltu'n dda â'r ystod eang o weithgareddau ar ôl yr ysgol a gaiff eu cynnig.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae staff ar draws yr ysgol yn datblygu perthnasoedd gweithio da gyda disgyblion. Maent yn meithrin parch ac ymddiriedaeth sy'n galluogi disgyblion i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd ati'n gyflym i wneud eu gwaith ac yn ymddwyn yn dda mewn gwersi.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da tuag at ddatblygu cwricwlwm sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr mewn creu'r cwricwlwm. Mae gweledigaeth yr ysgol yn cwmpasu ei gwerthoedd allweddol a'i nodau ar gyfer dysgu. Mae staff yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer disgyblion sy'n cynnwys diwrnodau trochi a chwestiynau ar ddechrau testunau. Mae'r dull hwn yn llwyddo i ddal diddordeb disgyblion ac yn eu galluogi i gynnwys eu syniadau eu hunain. Mae athrawon yn rhannu nodau dysgu eang gyda disgyblion yn ystod gwersi, ac mae'r rhain yn amlinellu eu disgwyliadau, ar y cyfan.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu addas i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r profiadau hyn bob amser yn diwallu anghenion yr holl ddysgwyr nac yn darparu lefel addas o her.

Mae'r ysgol yn datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn effeithiol. Mae disgyblion yn dysgu am Gymru a'r diwylliant Cymreig ac yn datblygu eu dealltwriaeth o draddodiadau a diwyllianau Cymru. Mae disgyblion yn elwa'n arbennig ar ymweliadau i ymestyn eu gwybodaeth, er enghraifft wrth ymweld â Chastell Conwy a Chastell Gwrych. Mae'r ysgol yn cryfhau ei chwricwlwm trwy ystod helaeth o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys clwb rhedeg, clwb adeiladu a ditectifs natur.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu golau, difyr, ag ynddi adnoddau da, i ddisgyblion. Defnyddir waliau gweithio ac arddangosfeydd yn effeithiol i gefnogi ac ymestyn dysgu plant o fewn yr ystafell ddosbarth, ac mae arddangosfeydd ysgol gyfan yn hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd rheolaidd ar gyfer sesiynau dysgu cynlluniedig yn yr awyr agored, gan gynnwys sesiynau a gynhelir yn ardal goetir yr ysgol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gyfer dysgu y tu allan i brofiadau coetir cynlluniedig yn gyfyngedig.

Mae athrawon yn cynllunio'n llwyddiannus i ddatblygu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu disgyblion. Maent yn cynllunio'n gynhwysfawr ar gyfer datblygiad mathemategol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio i bob un o'r disgyblion gymhwyso'r medrau hyn yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae cynorthwywyr addysgu yn cynorthwyo disgyblion yn llwyddiannus i ddatblygu eu medrau a'u lles. Ochr yn ochr ag athrawon, maent yn darparu modelau rôl iaith da ac

mae llawer ohonynt yn defnyddio holi'n effeithiol i ddyfnhau dealltwriaeth y disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio strategaethau asesu fel trafodaethau mewn parau a seibiannau byr yn effeithiol i alluogi disgyblion i fyfyrir ar eu dysgu. Mae disgyblion yn gwerthuso'u dysgu eu hunain yn erbyn meini prawf llwyddiant yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar pwrpasol i ddisgyblion yn ystod gwarsi ac wrth farcio'u gwaith ar ddiwedd gwarsi. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion hunanasesu yn ystod adolygiadau dysgu wythnosol. Mae'r dulliau hyn yn galluogi disgyblion i wybod sut i fod yn llwyddiannus a gwella'u gwaith. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cymhwyso strategaethau marcio ac adborth yn gyson i fonitro cynnydd.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ac yn iach. Maent yn trafod diogelwch personol gyda disgyblion yn sensitif. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ennill dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn ymchwilio i bobl a lleoedd ledled y byd, a disgyblion hŷn yn astudio newid hinsawdd.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle rhoddir blaenoriaeth i les pawb. Mae'r ethos cynnes a chefnogol sy'n cael ei greu gan staff yn helpu bron pob un o'r disgyblion i ymgynffwrdd â bywyd ysgol yn hawdd, ac yn cyfrannu'n sylweddol at ymgysylltiad disgyblion yn yr ysgol a'u parodrwydd i ddysgu. Mae'r ysgol yn darparu rhwydwaith o gymorth ar gyfer teuluoedd mewn angen.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o strategaethau ymyrraeth perthnasol ac effeithiol sy'n cynorthwyo disgyblion â'u dysgu a'u lles. Mae'r ystod eang hon o gymorth, gan gynnwys dulliau synhwyrdd a cherddoriaeth meddylgar, yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn y cymorth unigol sydd ei angen arnynt. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau cymryd rhan yn y sesiynau cymorth hyn, ac o ganlyniad, yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn unigol.

Mae staff yn darparu ystod gynhwysfawr o gymorth i helpu disgyblion i ddatblygu gwydnwch a dyfalbarhad a gwella'u lles. Mae'r ysgol yn creu amgylcheddau penodol i ddisgyblion eu defnyddio pan fydd angen gofodau diogel neu dawel sy'n eu cynorthwyo'n llwyddiannus i reoli eu hemosiynau a'u hymddygiad.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr a sefydledig ar waith i nodi, monitro ac ymateb i anghenion penodol disgyblion ag ADY. Maent yn gosod targedau realistig a chyflawnadwy ar gyfer pob un o'r disgyblion, yn enwedig y rhai ag ADY.

Mae'r ysgol wedi ymrwmo i weithio gydag ystod eang o asiantaethau allanol, yn cynnwys cymorth ar gyfer lleferydd ac iaith i ddarparu cymorth teilwredig ar gyfer disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion mwyaf bregus a'r rhai ag anghenion dysgu, yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae ymrwymiad cryf yr ysgol i arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cyfrannu'n effeithiol at y ffordd y mae'n gweithredu diwygio ADY.

Mae ymagwedd yr ysgol at hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn llwyddiannus. Mae arweinwyr a staff yn fodolau rôl cadarnhaol ar gyfer disgyblion ac yn hyrwyddo gwerthoedd fel caredigrwydd ac empathi yn effeithiol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda ac yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion a'u teuluoedd rannu eu treftadaeth ddiwylliannol eu hunain trwy ddiwyddiadau dilys, er enghraifft wrth gynnal noson gwledd Indiaidd ar gyfer teuluoedd lleol.

Mae'r ysgol yn arddel cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddysgu am natur amrywiol y byd a datblygu dealltwriaeth dda o'u treftadaeth Gymreig. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn Eisteddfod flynyddol yr ysgol gyfan, yn darllen storïau Cymraeg ac yn coginio bwyd Gymreig traddodiadol.

Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn elwa ar ymweliadau addysgol i gefnogi eu dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau â thraeth lleol, lle maent yn archwilio'r tir ac yn dysgu sut i aros yn ddiogel. Yn ychwanegol, ceir ymweliadau defnyddiol â'r ysgol gan y swyddog heddlu cymunedol, sy'n addysgu'r disgyblion ynglŷn â sut i aros yn ddiogel, drymwyr Senegal, a cherddorfa leol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ehangu eu diddordebau a'u profiadau trwy glybiau allgyrsiol fel clwb rhedeg a chlwb crefftiau.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i gynorthwyo disgyblion i ddysgu am bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, a diogelwch ar-lein. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion elwa ar ymarfer corff yn ystod y diwrnod ysgol. Mae'r profiadau hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i aros yn heini ac yn iach.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf. Ar draws yr ysgol, mae gan staff ddealltwriaeth glir o'r prosesau a'r gweithdrefnau i gadw disgyblion yn ddiogel. Maent yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, pan fo'n briodol. Mae gan yr ysgol drefniadau clir ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion. O ganlyniad, ymdrinnir â phryderon ynghylch presenoldeb mewn modd amserol, a gwahoddir rhieni i'r ysgol i drafod sut gall yr ysgol eu cynorthwyo.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar yn darparu arweinyddiaeth dosturiol sy'n cefnogi lles pawb yn llwyddiannus. Mae hi'n gosod disgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, staff, a disgyblion, ac mae hyn yn meithrin ymdeimlad cryf o falchder, ymddiriedaeth a pharch, sy'n treiddio trwy gymuned yr ysgol. Mae gan arweinwyr a staff weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sef "Bod yn hapus a diogel wrth i ni gyd ddysgu gyda'n gilydd" ("Happy and secure as we all learn together"). Mae'r tîm staff effeithiol yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac wedi ymrwymo i'r weledigaeth hon. Mae arweinwyr yn gwbl ymwybodol o effaith anfantais economaidd-gymdeithasol ar gyrhaeddiad disgyblion, ac mae ganddynt brosesau trylwyr a hynod effeithiol ar waith ar gyfer cynhwysiant.

Mae gan staff ddealltwriaeth drylwyr o anghenion eu disgyblion a'r gymuned leol ac maent yn gweithio gydag ymroddiad i ddiwallu'r anghenion hyn. Er enghraifft, mae darpariaeth yr "Hyb" a sefydlwyd yn ddiweddar yn galluogi disgyblion bregus i gael cymorth emosiynol pan fydd ei angen arnynt.

Mae arweinwyr yn defnyddio tystiolaeth addas i fonitro a gwerthuso cynnydd disgyblion. Mae prosesau ar gyfer gwerthuso darpariaeth a deilliannau disgyblion yn amserol ac wedi'u cysylltu'n glir â chynlluniau'r ysgol ar gyfer gwella. Dros gyfnod, mae'r ysgol wedi nodi meysydd allweddol i'w gwella yn dda, fel darllen a rhifedd, ac mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol y cwricwlwm a diwygio anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar agweddau pwysig sydd angen eu gwella, fel sicrhau bod athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n herio pob un o'r disgyblion yn briodol i ddyfnhau eu dysgu.

Caiff yr ystod eang o adnoddau sydd ar gael yn yr ysgol eu defnyddio'n bwrpasol gan ddisgyblion i ddatblygu ystod o fedrau. Fodd bynnag, nid yw staff yn gwneud defnydd digonol a phriodol o'r awyr agored i gefnogi dysgu a datblygiad disgyblion.

Mae perthynas yr ysgol â rhieni yn gryfder. Mae arweinwyr a staff yn mabwysiadu ymagwedd sydd â ffocws cymunedol at gefnogi disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach. O ganlyniad, mae rhieni'n ffyddiog fod yr ysgol yn gwneud y gorau dros eu plant ac y bydd staff bob amser yn gweithredu er eu lles pennaf. Mae hyn yn adlewyrchu ethos cwbl gynhwysol yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn hynod gefnogol i'w gwaith. Caiff llywodraethwyr cyswllt eu pennu i feysydd dysgu a phrofiad (MDPh) ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gynnydd disgyblion a blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae'r pennaeth yn rhoi gwybod i lywodraethwyr am ddysgu disgyblion yn rheolaidd ac yn eu cynghori'n realistig ar sut i wella darpariaeth. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn dda. Maent yn dyrannu'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i ddarparu cymorth ychwanegol i wella lles a medrau disgyblion. Maent yn ystyried effaith tlodi ac yn sicrhau nad yw cyllid yn rhwystr rhag dysgu, er enghraifft trwy roi cymhorthdal ar gyfer triapiau ysgol a darparu ffrwythau am ddim i ddisgyblion.

Mae'r pennaeth a'r staff yn monitro cynnydd pob un o'r disgyblion yn ofalus o'u manau cychwyn unigol. Maent yn defnyddio ystod o wybodaeth a data, gan gynnwys cyfarfodydd adolygu cynnydd rheolaidd yn effeithiol i amlygu unrhyw achos pryder ac addasu neu newid darpariaeth, pan fydd angen. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn gwneud cynnydd cryf.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant dysgu proffesiynol sy'n effeithio ar ddarpariaeth a safonau yn gadarnhaol. Er enghraifft, caiff pob un o'r staff eu cynnwys mewn datblygu'r cwricwlwm ac asesu ar gyfer dysgu. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad ar gyfer pob un o'r staff yn effeithiol. Maent yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol yn ogystal ag anghenion datblygiad proffesiynol staff.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ystod o bartneriaid er budd disgyblion a staff. Mae asiantaethau arbenigol yn darparu cymorth ac arweiniad yn rheolaidd, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad athrawon dan hyfforddiant a chynorthwywyr addysgu o'r coleg lleol yn effeithiol.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofawyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofawyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddogfenniadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2023